

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Ionawr 2011

Senario

Cyfeirnod y Papur

6953/01

Dylid dosbarthu'r senario hwn i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Ffeiliau ymarfer: Distance_practice.txt, Survey_practice.txt

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (*ICE*), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Trowch y dudalen ►

W39576A

©2011 Edexcel Limited.

1



W 3 9 5 7 6 A

edexcel 
advancing learning, changing lives

Lyonair – Cwmni Hedfan Rhad

Graddiodd Michelle Lyons o Brifysgol Leeds gyda gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Marchnata. Roedd tad Michelle bob amser wedi disgwyl iddi hi gymryd y busnes teuluol, Lyons Logistics, drosodd. Bu farw ei thad yn 2007 a daeth Michelle yn Brif Weithredwr cwmni cludiant a logisteg bach ond effeithlon. Ers hynny, mae Michelle wedi ehangu'r busnes ac ar hyn o bryd, y busnes hwn yw'r ail fwyaf o blith cwmnïau cludiant ffordd yn y Deyrnas Unedig.

Wrth iddi chwilio am ffyrdd o ehangu ac amrywiaethu (*diversify*), gwnaeth Michelle drefnu trosfeddiannu (*takeover*) Jordon's Freight Services. Ar y pryd, roedd Jordon's yn rhedeg dwy awyren cludo nwyddau o Faes Awyr Dinas Llundain. Wrth iddi redeg y busnes cludo nwyddau ar awyren, dechreuodd Michelle feddwl am greu cwmni hedfan i deithwyr, ac felly cafodd Lyonair ei eni.

Ar ôl cytuno ar fenthyciad gan y banc, prynodd Michelle bedair awyren newydd am £100,000,000 yr un. Mae Michelle wedi penderfynu rhedeg pedwar llwybr hedfan dwyffordd rhwng Llundain a: Madrid, Paris, Efrog Newydd a Canberra (Awstralia). Ar y daith i Canberra mae'r awyren yn aros yn Dubai i gael mwy o danwydd, a gall teithwyr adael y daith neu ymuno â'r daith yno. Bydd teithiau hedfan dyddiol i Baris a Madrid ac yn ôl. Bydd y teithiau eraill yn digwydd ddwywaith yr wythnos. Ar bob taith hedfan, caniateir 20kg o fagiau yr un i deithwyr.

Mae gan bob un o awyrennau Lyonair 366 o seddi, yr un cynhwysedd (*capacity*) tanwydd, yr un lle ar gyfer bagiau a'r un traul tanwydd (*fuel consumption*). Mae disgwyl i hyd oes yr awyrennau fod tua 300,000 o oriau hedfan ar yr amod eu bod nhw'n cael gwasanaeth llawn bob 5000 awr. Mae Michelle wedi penderfynu cylchdroi (*rotate*) yr awyrennau fel eu bod nhw'n hedfan llwybrau gwahanol bob wythnos. Fel hyn, bydd hyd oes yr awyrennau'n cael ei ymestyn.

Bydd nifer y staff ar yr awyren yn dibynnu ar a yw'r daith hedfan yn un bellter hir neu un bellter byr (*long haul or short haul*). Bydd gan bob awyren beilot, cyd-beilot, prif stiward (neu stiwardes) a thri o weinyddion hedfan (*flight attendants*) eraill. Yn ogystal, bydd gweinydd hedfan ychwanegol a llywiwr (*navigator*) ar daith bellter hir.

Mae angen i Michelle nawr osod prisiau tocynnau er mwyn sicrhau'r elw mwyaf. Mae hi wedi dechrau creu model prisio tocynnau ond mae hi wedi cael ei galw i ffwrdd i ddelio â phroblemau yn adran cludiant ffordd y cwmni. Mae hi wedi gofyn i chi gwblhau'r model ac argymhell prisiau ar gyfer pob llwybr.

Disgrifiad o'r r

Taflen waith

CostRevenue

Weight

Passengers

Plane Stats

Staff

Distances

Fuel

Airport Fees

**Mae rhai celloe
arbrofi â'r mod
newid cynnwys
yn gweithio.**



Disgrifiad o'r model

Taflen waith	Disgrifiad
<i>CostRevenue</i>	Dyma'r daflen waith byddwch chi'n ei defnyddio i osod prisiau'r tocynnau. Bydd cyfanswm y costau a'r derbyniadau (<i>revenues</i>) yn cael eu cyfrifo a'u harddangos.
<i>Weight</i>	Bydd y daflen waith hon yn cael ei defnyddio i gyfrifo pwysau awyren benodol pan fydd hi'n codi i'r awyr. Nid yw pwysau'r tanwydd wedi'i gynnwys yn y daflen waith hon. Mae pwysau'r awyren yn cael effaith sylweddol ar y traul tanwydd.
<i>Passengers</i>	Bydd y daflen waith hon yn cael ei defnyddio i amcangyfrif nifer y teithwyr a fyddai'n hedfan am bris penodol.
<i>Plane Stats</i>	Mae'r daflen waith hon yn cynnwys ystadegau defnyddiol am awyren.
<i>Staff</i>	Bydd y daflen waith hon yn cael ei defnyddio i gyfrifo cost fesul cilometr y staff amrywiol.
<i>Distances</i>	Bydd y daflen waith hon yn cynnwys y pellteroedd hedfan rhwng y meysydd awyr.
<i>Fuel</i>	Bydd y daflen waith hon yn cyfrifo cost y tanwydd ar gyfer pob taith.
<i>Airport Fees</i>	Mae'r daflen waith hon yn cynnwys manylion ffioedd y meysydd awyr.

Mae rhai celloedd yn y model wedi'u diogelu gan gyfrinair. Os ydych yn dymuno arbrofi â'r model, y cyfrinair yw *edexcel*. Dylech fod yn ymwybodol os ydych yn newid cynnwys unrhyw gell sydd wedi'i diogelu, ei bod yn bosibl na fydd y model yn gweithio.

